

Agenda – Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Lleoliad: I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Fideogynhadledd drwy Zoom Robert Donovan
Dyddiad: Dydd Iau, 11 Tachwedd 2021 Clerc y Pwyllgor
Amser: 09.30 0300 200 6565
SeneddEconomi@senedd.cymru

Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, mae'r Cadeirydd wedi penderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd. Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei ddarlledu'n fyw ar www.senedd.tv

Rhag-gyfarfod preifat (09.15–09.30)

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau (09.30)

Dogfennau atodol:

2 Papurau i'w nodi

(09.30)

Dogfennau atodol:

2.1 Llythyr gan Ben Cottam, Pennaeth Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru

(Tudalennau 1 – 3)

Dogfennau atodol:

Gwybodaeth ychwanegol gan Ben Cottam yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor ar 30 Medi 2021



2.2 Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd

(Tudalennau 4 – 5)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd ynglŷn â'r Rheoliadau Amodau Ffytioiechydol (Diwygio rhif 2) 2021

2.3 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad at y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

(Tudalennau 6 – 7)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ynglŷn â'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Ardrethu (Coronafeirws) ac Anghymhwysu Cyfarwyddwyr (Cwmnïau a Diddymwyd)

2.4 Llythyr gan at y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

(Tudalennau 8 – 9)

Dogfennau atodol:

Ymateb gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol ynglŷn â'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru (y Memorandwm) ar gyfer y Bil Ardrethu (Coronafeirws) ac Anghymhwysu Cyfarwyddwyr (Cwmnïau a Ddiddymwyd) (y Bil)

2.5 Llythyr gan Weinidog yr Economi

(Tudalennau 10 – 12)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan Weinidog yr Economi ynglŷn â'r Cytundeb Masnach Rydd rhwng y DU, Gwlad yr Iâ, Liechtenstein, a Norwy

2.6 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol:

(Tudalennau 13 – 15)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ynglŷn â'i ymchwiliad gerllaw Gofal plant a chyflogaeth rhieni

3 Craffu Cyffredinol ar Waith y Gweinidogion – Gweinidog yr

Economi

(09.30–11.00)

(Tudalennau 16 – 33)

Vaughan Gething AS

Sioned Evans, Cyfarwyddwr, Busnes a Rhanbarthau

Andrew Gwatkin, Cyfarwyddwr, Cysylltiadau Rhyngwladol a Masnach

Timothy Render, Cyfarwyddwr, Tir, Natur a Bwyd

Peter Ryland, Prif Weithredwr Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru

Dogfennau atodol:

Briff Ymchwil

Egwyl (11.00–11.10)

**4 Blaenoriaethau Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
– Sefydliadau ffermio**

(11.10–12.25)

(Tudalennau 34 – 47)

Gareth Parry, Uwch–swyddog Polisi a Chyfathrebu, Undeb Amaethwyr Cymru

Dylan Morgan, Pennaeth Polisi, Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr, Cymru

George Dunn, Prif Weithredwr, Cymdeithas y Ffermwyr Tenant

Gwyn Howells, Prif Weithredwr, Hybu Cig Cymru

Dogfennau atodol:

Briff Ymchwil

Egwyl (12.25–12.35)

**5 Blaenoriaethau Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
– Lles anifeiliaid**

(12.35–13.20)

Paula Boyden, Cyfarwyddwr Milfeddygol, Dogs Trust

Madison Rogers, Cats Protection, yn cynrychioli Grŵp Lles Anifeiliaid Anwes
Cymru

Chris O'Brien, Uwch-reolwr Materion Cyhoeddus a'r Cyfryngau, RSPCA Cymru

Dogfennau atodol:

**6 Trafod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Ardrethu
(Coronafeirws) ac Anghymhwysu Cyfarwyddwyr (Cwmnïau a
Ddiddymwyd)**

(13.20–13.30)

(Tudalennau 48 – 53)

Dogfennau atodol:

Nodyn Cyngor Cyfreithiol

**7 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y
cyhoedd o weddill y cyfarfod**

(13.30)

Dogfennau atodol:

8 Preifat

(13.30–13.40)

Trafod tystiolaeth yn dilyn y cyfarfod

Dogfennau atodol:

**9 Trafod yr Adroddiad Drafft ar Femorandwm Cydsyniad
Deddfwriaethol y Bil Ardrethu (Coronafeirws) ac Anghymhwysu
Cyfarwyddwyr (Cwmnïau a Ddiddymwyd)**

(13.40–13.50)

(Tudalennau 54 – 59)

Dogfennau atodol:

Adroddiad Drafft

10 Trafod Blaenraglen Waith Hydref 2021 – Gwanwyn 2022

(13.50–14.00)

(Tudalennau 60 – 64)

Dogfennau atodol:

Blaenraglen Waith

WALES OFFICE
1 Cleeve House
Lambourne Crescent
Llanishen
Cardiff
CF14 5GP

SWYDDFA CYMRU
1 Tŷ Cleeve
Cilgant Lambourne
Llanishen
Caerdydd
CF14 5GP

T/Ff: 029 2074 7406

E: admin.wales@fsb.org.uk

Paul Davies MS
Chair, Economy, Trade & Rural Affairs Committee
Senedd Cymru
Cardiff Bay
CF99 1SN

12th October 2021

Dear Chair

I was grateful to the Committee for the invitation and opportunity to attend the session on 30th September to discuss some of the issues facing smaller business in Wales during what is clearly a testing time. We are pleased that the Committee chose to use what I know is restricted time to understand these issues.

During the session, the issue of Welsh Government's Economic Contract and the forthcoming 'refresh' of that contract was raised and at the request of Carolyn Thomas MS, I undertook to provide the Committee with FSB perspectives on the Contract and what we'd indicated we'd like to see reflected.

For context, when the Contract was launched by Ken Skates MS during his time as Minister for Economy, FSB was supportive of the 'something for something' approach which Welsh Government was adopting in some areas of support. We feel it is reasonable that in return for certain forms of business support, there can be an expectation of the development of positive behaviours and practices whether for the environment, communities or workforces.

One of the challenges surrounding the Contract has been the understanding of businesses as to its purpose. In our experience, there have been very different interpretations among business as to the purpose of the Contract and indeed, also on occasions, different interpretations among officials and agencies. Furthermore, the Contract hasn't been supported to-date by a clear narrative or messaging as to its purpose and the change it is trying to drive. The refresh is an opportunity to correct that and outline clear purpose.

To some extent the terminology is confusing in that unlike most contracts businesses will be familiar with, the Contract doesn't have any binding legal status. It has traditionally reflected a raft

of measures and activities which should or could be undertaken by business in return for support rather than the range of activities to which Welsh Government and its agencies commit to in supporting that business. Getting better clarity on that should be part of the refresh and the subsequent communication of the Contract.

We have also consistently made the point about the proportionality of the Contract – proportional both in terms of business size as well as proportional in terms of the support sought. There are two examples in this respect.

Within the element of the contract which focuses on Fair Work for instance, it is important to reflect a number of ways in which employee voice can be reinforced. While we encourage employers to explore engagement with formal representation such as through Trade Unions, this is not necessarily appropriate for all businesses or their employees. We feel that the Contract needs to recognise the landscape of different engagement structures. It is important that the contract is used to guide businesses on a journey whether it be on Fair Work or in other areas such as decarbonisation for instance.

With regard to proportionality of support, we have made the point that the expectation of change should not be out of proportion with the level of the support being offered by Welsh Government. We share a hope with Government that the Contract could be used to drive positive change, but it's obviously important that the onus on the business should not make it less attractive than seeking that support elsewhere – particularly with regard to funding support - or we will lose the value of that relationship and driving those behaviours. Effectively, Welsh Government needs to demonstrate itself as a 'partner for growth' in terms of the relationship.

Because of the substantial support administered by Welsh Government to businesses over the last 18 months under interventions such as the Economic Resilience Fund, many more businesses will now be subject to the Economic Contract. We are not aware of the collation by officials of particular areas of action by businesses under the contract or what the intelligence gathered tells us about where businesses currently are regarding the themes covered within the Contract. However, this would be helpful to understand where support is needed and to better understand how businesses perceive the relationship they have with Welsh Government under the Contract.

The Contract is not on its own as a tool which seeks to help promote positive behaviours and change within business. The Good Business Charter is an initiative of the Good Business Foundation and is supported and promoted by FSB and other organisations. We have asserted previously that it would be helpful to have some 'read-across' between the Contract and the Charter to ensure that if a business adopts the Good Business Charter, this can be recognised within the Economic Contract. Not to do so seems to duplicate and miss an opportunity. We have not yet had confirmation from Welsh Government on how they see the contract interacting with something like the Good Business Charter.

One of the challenges for the Contract in the future will be ensuring it remains targeted at particular behaviours and desired outputs. The more Welsh Government seeks to leverage the Contract to gain outcomes for a range of policy areas, the more unwieldy and perhaps confusing the Contract may become. However, we are confident that the Contract is currently suitably targeted.

We welcome the approach taken by civil servants in developing the Contract and conversations we have with them have been productive and positive. The refresh of the Contract provides an opportunity to understand how it will be used in the context of economic recovery from the Pandemic, the drive to decarbonization as well as developing the Welsh economy.

However, for it to be successful, businesses need to be clear about what Welsh Government is offering within the Contract and that has to be seen as an attractive partnership. In the forthcoming refresh, there needs to be clear messaging on what the Contract is (and what it is not), the intention of the Contract and what is expected of businesses as well as the positive offering of Government.

I hope this note is helpful and we look forward to working with the Committee further as Welsh businesses seek to recover from the Pandemic.

Yours faithfully



Ben Cottam
Head of Wales, FSB



Paul Davies AS
Cadeirydd
Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Paul.Davies@senedd.wales

15 Hydref 2021

Rheoliadau Amodau Ffytioechydol (Diwygio rhif 2) 2021

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn bwriadu gwneud yr Offeryn Statudol (OS) a enwir uchod o dan bwerau a roddwyd gan Erthyglau 5(3), 30(1), 37(5), 40(3), 41(3), 42(3), 72(3) a 105(6) o Reoliad (UE) 2016/2031 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar fesurau i amddiffyn planhigion rhag plâu. Bydd yr OS yn gymwys i Gymru, Lloegr a'r Alban a'i ddiben fydd diogelu bioddiogelwch a chefnogi'r fasnach rhwng Prydain Fawr a thrydydd gwledydd perthnasol drwy gyflwyno mesurau pellach i amddiffyn nwyddau planhigion sy'n peri risg.

Mae'r OS yn diwygio Rheoliad (UE) 2019/2072 sy'n sefydlu amodau unffurf ar gyfer gweithredu Rheoliad (UE) 2016/2031 a gyfer:

- Cyflwyno mesurau ledled Prydain Fawr yn erbyn mewnfario planhigion llelyol a nwyddau perthnasol eraill a reoleiddir, mewn perthynas â rhai plâu. Mae'r mesurau hyn yn gymwys i drydydd gwledydd penodol sy'n peri lefel annerbyniol o risg i Brydain Fawr.
- Dadreoleiddio plâu yr aseswyd nad ydynt o unrhyw risg i fioddiogelwch Prydain Fawr, gan nad oes cyfiawnhad technegol mwyach dros barhau i'w rheoleiddio.

Rwy'n ysgrifennu atoch i roi gwybod ichi fy mod wedi rhoi fy nghaniatâd i'r Ysgrifennydd Gwladol gymhwyso'r OS hwn i Gymru. Deallaf by bydd yr OS yn cael ei osod gerbron Senedd y Deyrnas Unedig ar 21 Hydref o dan y weithdrefn negyddol.

Pan fo gofyn i ni ystyried a diwygio deddfwriaeth o fewn amserlen dynn gydag adnoddau prin, egwyddor gyffredinol Llywodraeth Cymru yw ein bod, os yw hynny'n briodol, yn caniatáu i Lywodraeth y DU ddeddfu ar ein rhan. Os gwrthodir y caniatâd hwnnw, bydd angen gwneud y cywiriadau hyn drwy ddeddfwriaeth a wneir gan Lywodraeth Cymru. Nid oes digon o amser nac adnoddau i ddrafftio a gosod rheoliadau o'r fath yr un pryd â Llywodraeth y DU a byddai oedi yn peryglu ein bioddiogelwch.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 4
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a Chadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith.

Yn gywir,

A handwritten signature in blue ink that reads "Julie James". The signature is written in a cursive, flowing style.

Julie James AS/MS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

Rebecca Evans AS

Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

19 Hydref 2021

Annwyl Rebecca

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Ardrethu (Coronafeirws) ac Anghymhwysio Cyfarwyddwyr (Cwmnïau a Diddymwyd)

Trafodwyd y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (y Memorandwm) ar y Bil Ardrethu (Coronafeirws) ac Anghymhwysio Cyfarwyddwyr (Cwmnïau a Diddymwyd) (y Bil) yn ein cyfarfod ddydd Llun yr wythnos hon. Mae dau fater pwysig, sy'n codi pwyntiau tryloywder a hygyrchedd, yr hoffem eu codi gyda chi cyn inni ystyried sut y byddwn yn cyflwyno adroddiad ar y Memorandwm.

Yn gyntaf, mae'r Memorandwm yn cyfeirio at y Bil fel y'i cyflwynwyd yn Nhŷ'r Cyffredin ar 12 Mai 2021 ac mae'n darparu linc i'r Bil fel y'i cyflwynwyd. Fodd bynnag, nid yw cymal 1 yn y fersiwn honno o'r Bil yn gymwys i Gymru.

Ar 7 Gorffennaf 2021, fe wnaethoch gyhoeddi datganiad ysgrifenedig yn cadarnhau bwriad Llywodraeth Cymru i ddeddfu "drwy geisio cynnwys darpariaethau ar gyfer Cymru ym Mil Rating (Coronavirus) and Directors Disqualification (Dissolved Companies) Llywodraeth y DU... a fydd yn gweithredu i ddiystyru apelau Covid-19 ar sail... [newid sylweddol mewn amgylchiadau]. "

Yn dilyn hynny, diwygiodd Llywodraeth y DU y Bil yn y Cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Cyffredin ar 9 Medi 2021 i ymestyn cymhwysiad cymal 1 o'r Bil i Gymru. Yn y nodiadau esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Bil fel y'i cyflwynwyd i Dŷ'r Arglwyddi ar 10 Medi, dywedodd Llywodraeth y DU "The [UK] Government, at the request of the Welsh Government, tabled amendments to the Bill at Commons Report stage to extend application of Clause 1 to non-domestic rating lists compiled for the purposes of business rates in Wales (as well as lists for England)."

Ni chyfeirir at y materion hyn o gwbl yn y Memorandwm, a osodwyd ar 21 Medi 2021, a byddem yn croesawu eich esboniad dros eu hepgor.

Yn ail, yn eich datganiad ysgrifenedig ym mis Gorffennaf dywedasoch "Rydym hefyd yn bwriadu cyflwyno rheoliadau yng Nghymru a fydd yn cael effaith debyg i'r darpariaethau sydd i'w cynnwys ym Mil y DU, a byddai'r rheoliadau hynny yn gymwys nes y daw Bil y DU yn gyfraith. " Hyd y gwyddom, ni wnaed y rheoliadau hyn. Rydym wedi nodi bod Gweinidogion y DU wedi gwneud The Valuation for Rating (Coronavirus) (England) Regulations 2021 ym mis Mawrth, ac y bydd cymal 1(9) o'r Bil yn dirymu'r Rheoliadau os a phan fydd y Bil yn cael ei ddeddfu. Byddem hefyd yn croesawu eglurder ar y mater hwn, gan gynnwys y sefyllfa bresennol o ran y rheoliadau y cyfeirir atynt yn eich datganiad ysgrifenedig.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Paul Davies AS, Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

Byddwn yn ddiolchgar o gael eich ateb erbyn 2 Tachwedd 2021.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink that reads "Huw Irranca-Davies". The signature is written in a cursive style and is underlined with a single horizontal stroke.

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd



Ein cyf/Our ref: MA/RE/2313/21

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
Swyddfa.breifaf@senedd.cymru

2 Tachwedd 2021

Annwyl Huw,

Diolch am eich llythyr am Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru (y Memorandwm) ar gyfer y Bil Ardrethu (Coronafeirws) ac Anghymhwyso Cyfarwyddwyr (Cwmnïau a Ddiddymwyd) (y Bil).

Hoffwn fynd i'r afael â'r materion yr ydych wedi'u codi wrth ystyried y Memorandwm.

Nid oedd cefndir y Bil wedi'i gynnwys yn y Memorandwm, sy'n canolbwyntio ar ddarpariaethau perthnasol yn y Bil y mae angen cydsyniad ar eu cyfer. Cyflwynwyd y Bil ar 12 Mai heb drafodaeth ymlaen llaw gyda Llywodraeth Cymru ynghylch a ddylid cynnwys darpariaethau ar gyfer Cymru wrth ei gyflwyno. Roedd y gwaith o ddatblygu'r Bil cyn ei gyflwyno hefyd yn digwydd yn ystod y cyfnod cyn etholiad y Senedd.

Yn dilyn yr etholiad, lluniwyd dull o ymdrin â'r Bil ac ysgrifennais at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol ar y pryd ar 27 Gorffennaf yn gofyn am i ddarpariaethau perthnasol i Gymru gael eu cynnwys yn y Bil. Cefais ymateb ar 3 Medi gan y Gweinidog dros Dwf Rhanbarthol a Llywodraeth Leol ar y pryd yn cadarnhau y byddai darpariaethau perthnasol ar gyfer Cymru yn cael eu cyflwyno fel gwelliant yn y Cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Cyffredin ar 9 Medi.

Rwy'n nodi eich sylwadau am y ddolen a ddarperir yn y memorandwm; dolen yw hon i'r dudalen ar y we sy'n cynnwys gwybodaeth sy'n berthnasol i bob cam o'r Bil. Mae'r Bil fel y'i diwygiwyd sy'n cynnwys darpariaethau sy'n berthnasol i Gymru i'w weld yn:

<https://bills.parliament.uk/publications/42504/documents/629>

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. If your correspondence is received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Tudalen y pecyn 8

O ran gwneud Rheoliadau perthnasol, brynhawn ddoe gosodais y *Rheoliadau Prisio ar gyfer Ardrethu (Cymru) (Coronafeirws) 2021*. Daeth y Rheoliadau hyn i rym am 6pm neithiwr ac maent yn cael yr effaith o atal, o hyn ymlaen, apelau Newid Perthnasol mewn Amgylchiadau sy'n ceisio dibynnu ar faterion sy'n ymwneud â Covid-19. Roedd Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen ymgynghori ar y Rheoliadau hyn, a chynhaliwyd ymgynghoriad ar y rheoliadau drafft rhwng 16 Awst a 27 Medi: cyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion ar 21 Hydref.

Oherwydd cyfyngiadau amser, ni fu modd cynnwys cymal yn y Bil sy'n dirymu'r Rheoliadau hyn. Bwriadaf osod rheoliadau pellach i ddirymu'r Rheoliadau, a fydd yn cyd-fynd ag amseriad y Cyswyniad Brenhinol, pe bai'r Bil yn parhau i fynd rhagddo.

Rwyf yn anfon copi o'r ateb hwn at Paul Davies AS, Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

Yn gywir,



Rebecca Evans AS/MS

Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/VG/3543/21

Paul Davies AS
Cadeirydd, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
Senedd Cymru
Caerdydd
CF99 1SN

2 Tachwedd 2021

Annwyl Paul,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 8 Hydref 2021 lle rydych yn gofyn am ragor o wybodaeth am y Cytundeb Masnach Rydd rhwng y DU, Gwlad yr Iâ, Liechtenstein, a Norwy.

Mae masnach rhwng Cymru a Gwlad yr Iâ a Norwy yn gymharol isel. Roedd masnach mewn nwyddau gyda Norwy a Gwlad yr Iâ yn cyfrif am bron i 1.5% o fasnach nwyddau Cymreig yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2021 o'i gymharu â'r UE sy'n cyfrif am tua 51.1% o fasnach nwyddau Cymreig. Nid oes data ar gael ar werth masnach rhwng Cymru a Liechtenstein. Mae asesiad macroeconomaidd ynghlwm wrth y llythyr hwn o dan Atodiad A. O ystyried nad yw'r gwledydd hyn yn cynrychioli marchnadoedd mewnforio nac allforio sylweddol i Gymru ac mae elfen nwyddau'r cytundeb yn anelu'n bennaf at greu mwy o barhad o'r adeg pan oeddem yn aelodau o'r UE, nid oes asesiad llawn o effaith y cytundeb wedi'i gynnal.

Drwy gydol y negodiadau, gwnaeth fy swyddogion gyfarfod â'r Prif Negodydd ar gyfer y cytundeb wrth i'r negodiadau fynd rhagddynt, yn ogystal â chael diweddariadau gan dimau polisi unigol Llywodraeth y DU. Rhoddodd hyn gyfle i ni ddeall a thynnu sylw at unrhyw elfennau o'r negodiadau nad oeddent yn cyd-fynd â'n blaenoriaethau neu bolisi domestig ein hunain. Fodd bynnag, o ystyried natur y cytundeb, nid oedd angen sylwadau i geisio newidiadau i flaenoriaethau negodi Llywodraeth y DU, nac i unrhyw un o'r darpariaethau a negodwyd. Roedd fy swyddogion hefyd yn gallu ystyried testun drafft y penodau sy'n ymwneud â materion sydd wedi'u datganoli a'i effaith bosibl ar Gymru. Gan fod y cytundeb hwn yn deillio o ailnegodi ac yn alinio trefniadau masnachu â thelerau Cytundeb Masnach a Chydweithredu'r DU a'r UE, mae'n golygu na fydd fawr o newidiadau i'n busnesau sydd eisoes yn masnachu gyda Norwy, Gwlad yr Iâ a Liechtenstein. Fodd bynnag, mae'n gadarnhaol bod y cytundeb yn cynnwys penodau penodol ar fasnach ddigidol a busnesau bach. Dyma'r tro cyntaf i unrhyw gytundeb masnach â'r tair gwlad Ewropeaidd hyn gynnwys penodau annibynnol sy'n cwmpasu'r meysydd hyn.

Mae'r unig newid deddfwriaethol a nodwyd hyd yma i weithredu'r cytundeb hwn yn ymwneud â phennod caffael o fewn y Cytundeb Masnach Rydd y mae angen ei ychwanegu at amserlenni cytundeb masnach ryngwladol y DU mewn rheoliadau caffael domestig. Bydd y

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 10
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

darnau canlynol o ddeddfwriaeth ddomestig yn gofyn am ddiwygiadau yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon: Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015; Rheoliadau Contractau Cyfleustodau 2016 a Rheoliadau Contractau Consesiwn 2016. Mae Swyddfa'r Cabinet yn bwriadu gwneud y diwygiadau drwy offeryn statudol o dan adran 2 o Ddeddf Masnach 2021.

Edrychaf ymlaen at fynychu cyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 11 Tachwedd.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink that reads "Vaughan Gething". The signature is written in a cursive, flowing style.

Vaughan Gething AS/MS
Gweinidog yr Economi
Minister for Economy

Asesiad Macroeconomaidd o Fasnach Nwyddau Cymreig gyda Norwy, Gwlad yr Iâ a Liechtenstein

Mae'r data diweddaraf sydd ar gael ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2021 yn dangos bod gwerth masnach nwyddau Cymreig gyda Norwy a Gwlad yr Iâ yn gymharol isel, gwerth tua £398.5m a £9.0m yn y drefn honno. Mae hyn yn cyfrif am tua 1.46% a 0.03% o gyfanswm masnach nwyddau Cymreig. Nid oes data ar gael ar werth masnach nwyddau rhwng Cymru a Liechtenstein.

Mae dadansoddiad¹ yn awgrymu bod ein hallforion nwyddau i Norwy yn cael eu dominyddu gan nifer fach o sectorau, gyda 'Haearn a dur', 'Peiriannau ac offer cynhyrchu pŵer', a 'Cherbydau ffyrdd' yn cyfrif am 44.9% o gyfanswm allforion nwyddau o Gymru i Norwy. Ar yr ochr fewnforio, mae dros 75% o'n mewnforion o Norwy o fewn y sector 'Petrolewm, cynhyrchion petrolewm a deunyddiau cysylltiedig'. Mae tystiolaeth yn dangos bod masnach o fewn y sector hwn yn cynnwys nwyddau sy'n symud i mewn ac allan o Gymru heb fawr o brosesu domestig, gan ddangos felly mai prin yw'r cyfleoedd yn y sector hwn i gyfrannu at gyflogaeth a gwerth ychwanegol yng Nghymru.

Ar gyfer Gwlad yr Iâ, mae'r sectorau allforio uchaf yn cynnwys 'Grawn a pharatoadau grawn', 'Cyfarpar proffesiynol, gwyddonol a rheoli', a 'Gosodiadau adeiladau, plymio, gwresogi a goleuo', sydd wedi'u cyfuno yn cyfrif am oddeutu 27.0% o gyfanswm allforion nwyddau Cymreig i Wlad yr Iâ. Ar yr ochr fewnforion, mae 'olew a brasterau o anifeiliaid' yn cyfrif am oddeutu traean (33.0%) o gyfanswm ein mewnforion nwyddau o Wlad yr Iâ. Fodd bynnag, dylid nodi bod gwerth isel mewnforion ac allforion yn golygu y gall pwysigrwydd cymharol sectorau fod yn anwadal, felly mae angen cymryd gofal i osgoi gor-ddehongli'r data sydd ar gael.

O ystyried gwerth isel masnach nwyddau ac argaeledd data cyfyngedig, defnyddir dull cymesur o ran asesiad macroeconomaidd o'r Cytundeb Masnach Rydd. O dan y dull hwn, cynhelir asesiad lefel uchel o'r data llif masnach sydd ar gael. Fodd bynnag, nid yw'r cytundeb yn bodloni'r meini prawf ar gyfer asesiad llawn yn seiliedig ar foddelu economaidd. Mae hyn yn cyd-fynd yn fras â'r dull a ddefnyddir gan Lywodraeth y DU: [Asesiad Effaith Norwy, Gwlad yr Iâ a Liechtenstein \(publishing.service.gov.uk\)](https://publishing.service.gov.uk)

Gwerth Masnach Nwyddau Cymreig gyda Norwy, Gwlad yr Iâ a Liechtenstein

Gwlad	Gwerth Allforion Nwyddau (% o gyfanswm allforion nwyddau o Gymru)	Safle	Gwerth Mewnforion Nwyddau (% o gyfanswm mewnforion nwyddau i Gymru)	Safle
Norwy	£103.2m (0.8%)	22 ^{ain}	£295.3m (2.1%)	14 ^{eg}
Gwlad yr Iâ	£6.2m (0.05%)	78 ^{fed}	£2.8m (0.02%)	79 ^{fed}
Liechtenstein	Dim data ar gael		Dim data ar gael	

Ffynhonnell: CThEM, RTS, Y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2021. Sylwer, mae'r tabl uchod yn dangos gwerth masnach nwyddau gyda phob gwlad unigol ar gyfer y cyfnod diweddaraf sydd ar gael (blwyddyn yn diweddu Mehefin 2021), felly efallai y bydd yn adlewyrchu effaith pandemig Covid-19. Mae ansicrwydd o hyd ynghylch trywydd yr adferiad mewn masnach nwyddau Cymreig yn y dyfodol, felly dylid dehongli'r ffigurau hyn yn ofalus.

¹ Mae'r dadansoddiad hwn yn seiliedig ar gyfartaledd tair blynedd (2018-2020) i leihau effaith ansefydlogrwydd masnach.

Paul Davies AS

Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

4 Tachwedd 2021

Annwyl Paul,

Gofal plant a chyflogaeth rhieni: y pandemig a thu hwnt

Yn fy llythyr ar 10 Awst, rhoddais wybod i chi fod y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol wedi cytuno i gynnal ymchwiliad i effaith pandemig COVID-19 ar fenywod yn y gweithle. Mae'r gwaith hwn bellach wedi dechrau; mae'r Pwyllgor yn cynnal ymchwiliad i ofal plant a chyflogaeth rhieni: y pandemig a thu hwnt. Bydd yr ymchwiliad yn canolbwyntio ar y rhwystrau y gall darpariaeth gofal plant ei olygu i rieni, yn enwedig menywod, o ran ymuno â'r farchnad lafur a symud ymlaen.

Ceir cylch gorchwyl yr ymchwiliad yn atodiad A, a manylion casglu tystiolaeth yn atodiad B.

Gall agweddau ar yr ymchwiliad sy'n ymwneud â chylch gwaith eich Pwyllgor chi fod o ddiddordeb i'ch Aelodau. Felly, hoffwn wahodd eich Aelodau i ystyried a oes unrhyw bwyntiau yr hoffent eu codi mewn perthynas â'n cylch gorchwyl, neu unrhyw ran yr hoffent ei gymryd yn ein gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid a dinasyddion.

Sesiynau tystiolaeth a chraffu cyfarfodydd ffurfiol


Cynigïaf fod Sarah Murphy, fel Aelod ar y ddau Bwyllgor, yn gweithredu fel rapporteur i rannu unrhyw gwestiynau a gynigir gan eich Aelodau yn ein sesiynau casglu tystiolaeth a chraffu ffurfiol.

Ymgysylltu â rhanddeiliaid a dinasyddion

Os hoffai unrhyw rai o'ch Aelodau gymryd rhan yn y sesiwn drafod neu unrhyw rai o'r grwpiau ffocws arfaethedig fel sylwedydd, gofynnwch i'ch tîm Clercio gysylltu â thîm Clercio fy mhwyllgor i wneud trefniadau. Rwyf hefyd yn hapus i rannu gyda'ch Aelodau y nodiadau o'r digwyddiadau hyn i lywio eich gwaith yn y dyfodol.

Diolch ichi ymlaen llaw am roi sylw i'r cais hwn. Byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi wrth i'r ymchwiliad fynd yn ei flaen.

Yn gywir



Jenny Rathbone

Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.

Atodiad A

Cylch gorchwyl

Y cylch gorchwyl ar gyfer yr ymchwiliad yw archwilio:

- I ba raddau y mae'r ddarpariaeth gofal plant bresennol yng Nghymru yn cefnogi rhieni'n ddigonol, yn enwedig mamau, i gael swydd, aros yn y swydd a symud ymlaen yn y swydd, a pha newidiadau y gallai fod eu hangen i wella effeithiolrwydd y ddarpariaeth gofal plant wrth wneud hyn.
- Pa effaith y mae'r Cynnig Gofal Plant yn benodol wedi'i chael o ran cyflawni nod Llywodraeth Cymru o "helpu rhieni, mamau yn arbennig, i ddychwelyd i'r gwaith neu i gynyddu'r oriau y maent yn eu gweithio".
- Effaith y lefelau cyfyngedig o ofal plant sydd ar gael ar lefelau cynhyrchiant yng Nghymru.
- Sut mae trefniadau gofal plant wedi effeithio ar gyflogaeth rhieni yn ystod y pandemig coronafeirws, yn enwedig mewn perthynas â mamau. Pa wersi y gellid eu defnyddio i ddarparu gwell cymorth yn ystod unrhyw gyfnodau clo neu gyfyngiadau uwch yn y dyfodol.
- A yw'r ddarpariaeth gofal plant a ariennir gan Lywodraeth Cymru yn ddigon hyblyg i helpu rhieni o ran cyflogaeth, yn enwedig mamau, mewn gwahanol grwpiau demograffig ac sy'n profi gwahanol amgylchiadau.
- Effaith ddarpariaeth gofal plant ffurfiol o ansawdd uchel ar leihau'r bwlch cyrhaeddiad, a'r buddion posibl yn sgil ymestyn y ddarpariaeth gofal plant i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau.
- Yr hyn y gall Cymru ei ddysgu o fodolau eraill o ddarpariaeth gofal plant sy'n gweithredu yng ngweddill y DU ac yn rhyngwladol a'r ymarfer sy'n dod i'r amlwg o ran cefnogi cyflogaeth rhieni, ac i ba raddau y gallai'r modelau hyn fod yn drosglwyddadwy yng nghyd-destun Cymru.
- Sut y byddai angen i Lywodraeth Cymru ystyried goblygiadau ariannol ac ymarferol fel argaeledd gofal plant mewn unrhyw ddatblygiadau polisi yn y dyfodol i ymestyn y ddarpariaeth gofal plant.



Atodiad B

Casglu tystiolaeth

Dydd Llun 15 Tachwedd	Paneli tystiolaeth rhanddeiliaid: <ul style="list-style-type: none">▪ Sefydliadau sy'n ymgyrchu dros ofal plant▪ Darparwyr gofal plant▪ Darpariaeth gofal plant y tu allan i Gymru
Dydd Llun 22 Tachwedd	Sesiwn drafod gyda sefydliadau fel darparwyr gofal plant, sefydliadau sy'n ymgyrchu dros faterion gofal plant, cyflogwyr, undebau llafur.
Dydd Llun 29 Tachwedd (i'w gadarnhau)	Panel tystiolaeth: <ul style="list-style-type: none">▪ Comisiynydd Plant Cymru▪ Y Comisiynydd Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Sesiwn graffu: <ul style="list-style-type: none">▪ Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol
Dyddiadau amrywiol trwy gydol mis Tachwedd	Cyfres o grwpiau ffocws ar-lein ac wyneb yn wyneb gyda rhieni a sefydliadau partner o bob cwr o Gymru

Eitem 3

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Eitem 4

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Eitem 6

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Eitem 9

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Eitem 10

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon